



MENTER MYFYRWYR ADRODDIAD EFFAITH

HYDREF 2022—AWST 2023

BYDDWCH YN YSBRYDOLEDIG | CYMERWCH RAN | BYDDWCH YN FENTRUS

Gan y Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi



Prifysgol
Abertawe
Swansea
University

CWRDD AR TÎM MENTER

Mae'r Tîm Menter Myfyrwyr canolog rhan o'r Gwasanaethau Arloesi, Ymchwil ac Ymgysylltu (REIS). Maent yn gyfrifol am ddarparu rhaglen strategol Entrepreneuriaeth Ieuentid Llywodraeth Cymru, sy'n cyd-fynd â Strategaeth Fentergarwch y sefydliad 2023-2028, drwy gefnogi myfyrwyr a graddedigion i ddod yn fwy entrepreneuriaid a rhoi iddynt y meddylfryd, y profiadau a'r sgiliau y mae eu hangen i ddechrau eu busnes eich hun, gyrfa llawrydd neu fenter gymdeithasol. Maent hefyd yn cefnogi cyflawni ymrwymiadau ar gyfer gweithgareddau masnachol, twf busnes newydd a chenhadaeth ddinesig a nodwyd yng Nghronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF).

AMDANOM NI...



EMMA DUNBAR
Pennaeth Ymgysylltu,
Arloesi, ac
Entrepreneuriaeth



KELLY JORDAN
Uwch-swyddog
Cymorth
Mentergarwch



PAIGE WINDIATE
Swyddog Cymorth
Marchnata
Mentergarwch



ANGUS PHILLIPS
Swyddog Cymorth
Mentergarwch



JOEL BOWEN
Cynorthwy-ydd
Cymorth Mentergarwch

CYSYLLTWCH Â NI

-  enterprise@swansea.ac.uk
-  www.swansea.ac.uk/enterprise
-  [Swansea University Enterprise](https://www.facebook.com/SwanseaUniversityEnterprise)
-  [Enterprise_SwanUni](https://www.instagram.com/Enterprise_SwanUni)
-  [Swansea-university-enterprise](https://www.linkedin.com/company/swansea-university-enterprise)
-  [Enterprise_SwanUni](https://www.tiktok.com/@Enterprise_SwanUni)

EIN GWELEDIGAETH

Mae datblygu talent arloesol ac entrepreneuriaid yn nodweddiadol o brofiad myfyrwyr Prifysgol Abertawe, gan drawsnewid bywydau a'r dyfodol drwy ddatgloi a meithrin cymuned entrepreneuriaid gysylltiedig

EIN CENHADAETH

- Gwreiddio ecosystem a diwylliant entrepreneuriaid effeithiol a dynamig
- Hyfforddi graddedigion entrepreneuriaid ac arloesol y mae galw mawr amdanynt, o bob Cyfadran
- Cael ein cydnabod yn genedlaethol fel Prifysgol sy'n meithrin mentergarwch ein myfyrwyr



YMRWYMEDIG I'N

MYFYRWYR AR DRAWS POB DISGYBLAETH

Rydym wedi creu fframwaith i gefnogi "Taith Entrepreneuriaid" ein myfyrwyr drwy ddarparu amgylchedd o gynhwysiant a hygyrchedd, er mwyn annog busnesau newydd a helpu ein myfyrwyr i feithrin eu sgiliau a'u meddylfryd entrepreneuriaid a'u gwydnwch.



17,868 WEDI CYFRANOGI



Myfyrwyr sydd wedi cael cyflwyniad i entrepreneuriaeth drwy sgysiau i godi ymwybyddiaeth, gweithgareddau a digwyddiadau gyrfaedd

1,774 WEDI EU GRYMUSO



Er mwyn archwilio a datblygu eu gallu entrepreneuriaid drwy weithdai, hacathonau ac entrepreneuriaeth

880 O SYNIADAU WEDI EU DILYSU



Drwy fasnachu prawf a mentora

219 WEDI EU MEITHRIN



I ddechrau drwy gyfarfodydd cyngor busnes 1-2-1

75 O FUSNESAU WEDI'U SEFYDLU



YMRWYMEDIG I

FENTERGARWCH YN Y CWRICWLWM

1,604 O FYFYRWYR: WEDI EU COFRESTRU AR 40 O FODIWLAU SY'N CANOLBWYNTIO AR FENTERGARWCH, ENTREPRENEURIAETH NEU ARLOESI

40 O FODIWLAU

27	CYFADRAN Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL	7	Y GYFADRAN GWYDDONIAETH A PHEIRIANNEG	6	Y GYFADRAN MEDDYGAEATH, IECHYD A GWYDDOR BYWYD
25	YR YSGOL REOLAETH	3	YSGOL PEIRIANNEG A'R GWYDDORAU CYMHWYSOL	4	YSGOL FEDDYGAEATH PRIFYSGOL ABERTAWE
1	YSGOL Y GYFRAITH HILLARY RODHAM CLINTON	2	YR YSGOL MATEMATEG A CHYFRIFIADUREG	2	YR YSGOL IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL
1	YSGOL Y GWYDDORAU CYMDEITHASOL	2	YSGOL PEIRIANNEG AWYROFOD, SIFIL, DRYDANOL, GYFFREDINOL A MECANYDDOL		

ASTUDIAETHAU ACHOS MODIWL MENTERGARWCH

Cyfadrn y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol	Y Gyfadrn Gwyddoniaeth a Pheirianneg	Y Gyfadrn Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd
Modiwl Entrepreneuriaeth Gymhwysol - Masnachu Prawf yr Ysgol Reolaeth	Modiwl hacathon Peirianneg i Bobl yr Ysgol Peirianneg a'r Gwyddorau Cymhwysol	Modiwl Mentergarwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Wedi treulio'r semester cyntaf yn datblygu eu syniadau busnes, cafodd myfyrwyr rheolaeth yn yr ail flwyddyn y cyfle i gael profiad o fasnachu nwyddau ar y campws ac ar-lein i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd. Ychwanegwyd at y modiwl drwy ddefnyddio stondinau Masnach Myfyrwyr Prifysgol Abertawe, yn ogystal ag ymuno â gweithdai o entrepreneuriaid lleol ynghylch sut i hyrwyddo, arddangos a gwerthu nwyddau yn llwyddiannus.	Mae hacathons yn gyfle gwych i fyfyrwyr gydweithio a defnyddio eu sgiliau datrys problemau, gwaith tim a meddwl yn faeirniadol. Yn ystod yr hacathon Peirianneg i Bobl, rhaid i fyfyrwyr weithio gyda'i gilydd wrth greu syniadau i ddatrys rhai o broblemau mwyaf dybryd y byd. Darparodd y Tim Mentergarwch Myfyrwyr, ochr yn ochr ag arbenigwyr masnacheiddio a thiworiaid cwrs, weithdai ynghylch creu syniadau ac ymchwil i'r farchnad, yn ogystal â mewnwelediadau ar sut i ddod â syniadau newydd arloesol i'r farchnad.	Gan weithio gydag Arweinydd Cyflogadwyedd y Gyfadrn, datblygwyd 2 fodiwl newydd ar gyfer 2022/23, gan gyflwyno myfyrwyr i'r cysyniad o fentrau cymdeithasol sy'n hanfodol i'r diwydiant Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd y modiwlau'n cynnwys sgysiau gan entrepreneuriaid cymdeithasol yn y diwydiant ac yn rhoi cyfle i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf ddatblygu a chyflwyno eu syniadau eu hunain am fentrau cymdeithasol.

Darparodd y Tim Mentergarwch Myfyrwyr sesiwn hynod ddiddorol i'n myfyrwyr MSc. Ategwyd y sesiwn gan ymchwil health i'r farchnad a llwyth o astudiaethau achos a gyflwynodd y meddylfryd entrepreneuriaid i'n myfyrwyr. Mae'r sesiwn hon wedi ysbrydoli ein carfan i ystyried y llwybr entrepreneuriaid fel llwybr gyrfa hyfyw!"

Christian Vassallo – Darlithydd mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff

UCHAFBWYNTIAU'R THEMA CYFLYMU

1. ADEILADU CYMUNEDAU O ENTREPRENEURWYR

Rydym yn cynnal digwyddiadau a mentrau i feithrin cymunedau o entrepreneuriaid ymhlith ein myfyrwyr a'n graddedigion, gan gynnwys cyfleoedd i fyfyrwyr a chymdeithasau arwain eu gweithgareddau mentergarwch eu hunain, gan greu cymuned entrepreneuriaeth gynhwysol, hygyrch a chysylltiedig.

Taleb £200

Mae'r Tim Mentergarwch yn cefnogi myfyrwyr a chymdeithasau i gynnal eu digwyddiadau mentergarwch eu hunain yn y Brifysgol drwy daleb Just Enterprise It gwerth £200, y gallant eu defnyddio i helpu i ariannu gweithgareddau megis lansio cynnyrch, gweithdai i fusnesau newydd a thrafodaethau panel ag entrepreneuriaid.



Marchnadoedd Gwneuthurwyr

Mae'r Brifysgol yn croesawu myfyrwyr sy'n fasnachwyr a busnesau lleol i werthu nwyddau a gwasanaethau mewn marchnadoedd hwyliog bob semester ar draws y ddau gampws mewn Marchnadoedd Gwneuthurwyr, a gynhelir mewn cydweithredia dâ Chyfadrann y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol. Eleni, gwnaeth 57 myfyrwr fasnachu ar y campws ac yn lleol, gan helpu i feithrin y gymuned leol o fasnachwyr annibynnol a'u technegau gwerthu hanfodol. Gyda thua 300 o fyfyrwyr a staff yn dod i'r Marchnadoedd Gwneuthurwyr, gall ein busnesau newydd feithrin eu sgiliau masnachu.



3	MENTER DAN ARWEINIAD MYFYRWYR
5	DIGWYDDIAD I FEITHRIN ENTREPRENEURIAID YMYSG YMCHWILWYR ÔL-RADDEDIG
7	MYFYRIWR WEDI'U CYFLOGI FEL INTERN
48	DIGWYDDIAD I FEITHRIN RHWYDWEITHIAU A CHYMUNEDAU



Y Launchpad

Y Launchpad yw ein gofod newydd ei ddylunio ar Gampws Singleton i fyfyrwyr mentrus gynnal cyfarfodydd busnes, datblygu cynlluniau a rhwydweithio ag eraill sy'n frwdfrydig am ddechrau busnes. Bydd y gofod hefyd yn gartref i ddigwyddiadau a gweithdai a gynhelir gan y Tim Mentergarwch.

Mae'r ystafell yn cynnwys pod i gyfarfodydd preifat, sgrîn fawr a bwrdd cyfarfod ar gyfer galwadau cynadledda, desgiau a chegin fach.



YMRWYMEDIG I YMCHWILWYR ÔL-RADDEDIG

Mentrau Ymchwil Ôl-raddedig Entrepreneuraidd

I helpu i feithrin cymunedau o entrepreneuriaid ymhlith myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ac arddangos dulliau o fasnacheiddio eu gwybodaeth, cyflwynodd y Tim Mentergarwch gyfres o weithdai o'r enw "Yr Ymchwilydd Entrepreneuraidd" a chynhaliodd ddigwyddiadau hyfforddi drwy gydol y flwyddyn. Wedi'i weddnewid, bydd y gofod yn croesawu myfyrwyr ac entrepreneuriaid o fis Medi 2023.

Rhyngweithio â'r Gymuned Ymchwil Ôl-raddedig

WEDI CYFRANOGI	34
WEDI GRYMUSO	26
SYNIADAU A DDILYSWYD	26
WEDI CEFNOGI I DDECHRAU	8
BUSNESAU SYDD WEDI DECHRAU	6

Mae Skillsfluence yn darparu hyfforddiant a mentora sy'n arfogi Ymchwilwyr Ôl-raddedig â'r sgiliau a'r hyder y mae ei angen i wneud y



SKILLSFLUENCE

mwyaf o'u hymchwil a masnacheiddio eu syniadau. Ym mis Mawrth 2023, cynhaliodd Skillfluence sesiynau "O'r Fainc i'r Farchnad" ar gyfer 9 Ymchwilydd Ôl-raddedig o Brifysgol Abertawe ar sut i ddod ag arloesiadau i'r farchnad.

"A dweud y gwir, cyn i mi ddechrau fy interniaeth gyda'r Tim Mentergarwch Myfyrwyr, doeddwn i ddim yn deall beth yn union ymentergarwch neu entrepreneuriaeth yw. Roeddwn i'n gwybod y diffiniad, ond dysgais ei bwysigrwydd wrth ddechrau a thyfu a busnes dim ond ar ôl i mi gwrdd â'r tim a chael y ddealltwriaeth o'u cymhelliant. Gyda'r holl ddigwyddiadau, yn enwedig The Big Pitch, gwelais fyfyrwyr yn gwireddu eu syniadau, yn dod o hyd i lwybr i'w ddilyn ac yn dysgu pwy maen nhw eisiau bod. Rwy'n meddwl bod gwaith y tim yn hanfodol i ddealltwriaeth myfyrwyr o'u dyfodol a'u posibiladau. Yn ystod yr interniaeth hon rydw i wedi cael cymaint o arweiniad ar rwydweithio a fy menter fy hun, fy unig ddymuniad yw y byddai mwy o fyfyrwyr yn gwybod am y tim a'i waith gwyh."

Oliwia Janik, Myfyrwr Seicoleg ac Intern yn y Tim Mentergarwch

UCHAFBWyNTIAU'R THEMA CYFLYMU

2. BLAENORIAETHAU A CHYDWEITHREDU RHANBARTHOL


Drwy weithio'n agos gyda rhanddeiliaid, busnesau a sefydliadau addysgol rhanbarthol, gwnaethom nodi a chreu nifer o gyfleoedd ar gyfer cydweithio rhanbarthol, sy'n cefnogi busnesau newydd a chymunedau lleol, wrth wella meddylfryd, sgiliau a rhwydweithiau ein myfyrwyr.

'Taith i Fentrau' wrth ddechrau busnes

Mae'r Tim Mentergarwch wedi cefnogi llawer o fyfyrwyr a graddedigion i sefydlu eu busnesau yn Abertawe ac ar draws y rhanbarth. Er mwyn hyrwyddo eu cyflawniadau ac annog eraill i ystyried lleoli eu mentrau yn ne-orllewin Cymru, aeth y fim â'r myfyrwyr ar 'daith i fentrau' i rai o'r busnesau y maent wedi'u cefnogi. Roedd hyn yn cynnwys; siop dillad vintage Siôn Williams o'r enw RAVS a siop planhigion dros dro Ashima Anand, Aspera.

Digwyddiadau Rhwydweithio 'Cwrdd a Chymdeithasu.'

Roedd y Tim Mentergarwch Myfyrwyr yn cynnal digwyddiadau rhwydweithio Cwrdd a Chymdeithasu bob semester i helpu ein myfyrwyr entrepreneuriaid i feithrin eu rhwydweithiau, datblygu sgiliau a dysgu am fentrau busnesau newydd lleol yn y rhanbarth. Eleni, mae Prifysgol Abertawe wedi partneru â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cynnal y digwyddiadau hyn i ehangu'r cyfleoedd rhwydweithio ymhellach i'w dysgwyr ac annog cydweithio trawsddisgyblaethol. Cawsant eu cefnogi hefyd gan ION Leadership a Chyngor Abertawe i drafod eu cyfleoedd.



Scan or click the QR code to find out more about our Meet & Mingle Networking events.

14 DIGWYDDIAD RHWYDWEITHIO RHANBARTHOL

29 DIGWYDDIAD A MENTER DAN ARWEINIAD Y GYFADRAN

81 MYFYRIWR YN YMUNO Â DIGWYDDIADAU RHWYDWEITHIO 'CWRDD A CHYMDEITHASU'



Dathliad yr Arglwydd Faer o Addysg Fentergarwch ar draws Dinas Abertawe

Ar 14 Mawrth 2023, cafodd Arweinwyr Mentergarwch o'r Brifysgol eu gwahodd i Blasty'r Maer i ddatlu'r cyflawniadau y mae Addysgwyr Mentergarwch wedi'u gwneud ac yn parhau i'w gwneud ar draws y rhanbarth.

Gydag addysgwyr o addysg Gynradd ac Uwchradd sy'n creu sylfeini meddylfryd entrepreneuriaid, gall dysgwyr fynd ymlaen i sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch i ddatblygu eu meddyliau arloesol ymhellach i greu effaith yn y byd rydyn ni'n byw ynddo.



City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe




Hacathon 'Invent for the Planet'

Prifysgol Abertawe yw'r unig brifysgol yn y DU o hyd i gymryd rhan yn Hacathon byd-eang Prifysgol Texas A&M 'Invent for the Planet', sy'n herio timau o fyfyrwyr Gwyddoniaeth a Pheiranneg o 27 o brifysgolion ledled y byd i ddatblygu cysyniadau arloesol mewn ymateb i broblemau mwyaf dybryd y byd. Dan arweiniad ein partneriaid strategol, Prifysgol A&M Texas, gyda chefnogaeth y Tim Mentergarwch, mae myfyrwyr yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth 48 awr ym mis Chwefror, a gwahoddwyd y fim buddugol, H2Grow, i Texas ym mis Ebrill ar gyfer y rownd derfynol.

Dros y penwythnos, mae myfyrwyr yn datblygu eu cysyniad a phrototeip ac yn cyflwyno eu syniad, wrth hefyd greu cyflwyniad ar fideo ar gyfer eu syniad. Caiff cyfranogwyr eu tywys drwy'r penwythnos gan arbenigwyr o'r byd academaidd a byd diwydiant.

"Mae 'Invent for the Planet' yn gyfle unigryw i fyfyrwyr feddwl am heriau byd-eang a chydweithio ar syniadau arloesol i fynd i'r afael â nhw. Fel mentor, gwnaeth y creadigrwydd, yr angerdd a gwaith fim y myfyrwyr, greu argraff fawr araf. Dysgais ganddyn nhw, a chefais fy ysbrydoli gan eu hymroddiad i bethau o bwys."

Dr Fran Martin-Martinez, Uwch-ddarlithydd mewn Cemeg, Mentor IFTP.



ENILLWYR Y BYD 2023

Roedd H2Grow yn un o chwe thim yn unig a ddewiswyd ar gyfer y rownd derfynol, a gynhaliwyd yn Texas. Daeth timau eraill a ymunodd â nhw o UDA, Pacistan, Gwlad Thai a Qatar.


Ar ôl creu argraff ar y beirniaid gyda'u datrysiaid pwmp dwr gwrth-osmosis mewn ymateb i heriau o bell dwr glân a glanweithdra, dewiswyd H2Grow fel enillwyr 'Invent for the Planet' 2023.

Adborth gan fyfyrwyr a gymerodd ran

"Un o'r profiadau mwyaf cofiadwy i mi ei gael ers dod i Brifysgol Abertawe."

"Os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn hunan-ddatblygiad y tu hwnt i faes llafur y brifysgol, mae 'Invent for the Planet' yn cyfle anhygoel i ddsygu a rhoi eich sgiliau ar brawf."

"Fe wnes i ei fwynhau ymhell y tu hwnt i fy nisgwylidadau a byddwn yn ei hargymell os ydych am wella eich dealltwriaeth o fynd gwaith"



Gwylwch y fideo am 'Invent for the Planet 2023' drwy glicio neu sganio'r côd QR.

"Rwy'n hynod ddiolchgar i'r fim Mentergarwch am y cymorth rhagorol a ddarparwyd ganddynt ar gyfer 'Invent for the Planet' 2023. Roedd eu cyfuniad unigryw o arbenigedd wedi gwella'n sylweddol y digwyddiad a phrofiad y myfyrwyr sy'n cymryd rhan. Soniodd llawer ohonynt amdano yn benodol yn eu adborth. Roedd gwaith caled, brwdfrydedd, proffesiynoldeb ac ymrwymiad y fim yn rhan annatod o wneud y digwyddiad hwn yn llwyddiant ysgubol ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda nhw eto yn y dyfodol."

Dr Caroline Coleman-Davies – Dirprwy Bennaeth, Yr Adran Partneriaethau Academaidd

UCHAFBWyNTIAU'R THEMA CYFLYMU

3. CYCHWYN A THWF




Rydym wedi datblygu cyfleoedd arloesol i adnabod a chefnogi myfyrwyr sydd â diddordeb mewn entrepreneuriaeth ac i helpu'r rhai sydd eisoes mewn busnes i dyfu, gan gynnwys grantiau i gychwyn busnes, cyngor busnes, ymgynghoriadau, gweithdai rhyngweithiol, interniaethau mentergarwch a mwy.

Y Cynnig Mawr

Cynhelir y gystadleuaeth gan y Tim Mentergarwch a noddir gan Prifysgolion Santander y DU, mae'n cefnogi busnesau newydd myfyrwyr ac yn arddangos rhai o'r meddyliau mwyaf disglair ac arloesol. Roedd y gystadleuaeth yn croesawu cyflwyniadau 28 o entrepreneuriaid brwdfrydig ddwywaith y flwyddyn.

Tachwedd 2022

- Dyfarnwyd £11,000 i bum busnes
- Chwe myfyrwr yn cael mentoriaeth gan gyn-fyfyrwyr y Brifysgol
- Naw lle ar raglenni cyflymu pwrpasol
- Dyfarnwyd lleoliadau gwaith cyflogedig i dri myfyrwr



“Roedd The Big Pitch yn anhygoel! Rhoiodd gyfle i mi fagu hyder wrth siarad am fy busnes i gynulleidfa dderbyngar a chefnogol. Roedd yn lleoliad perffaith i ennill profiad gwerthfawr a mireinio fy sgiliau er mwyn llwyddo yn y dyfodol.”

Chloe Tulip, Myfyrwr PhD Seicoleg

1	CYNLLUN CYCHWYN BUSNES I RADDEDIGION
2	FWTCAMP BUSNES
5	CYSTADLEUAETH BUSNES NEWYDD
15	BUSNES NEWYDD WEDI'U MENTORA
28	MYFYRIWR A WNAETH GYFLWYNO I GAELCYLLID
57	MYFYRIWR AR FWTCAMP BUSNES

Mawrth 2023

- Mwy na £7,000 i bum busnes
- Wyth lle ar raglenni cyflymu pwrpasol
- Tri chyfle masnachu ar draws Abertawe
- Tri mentor o gymuned cyn-fyfyrwyr y Brifysgol

Cynllun Mentora Busnes Newydd i Brif Weithredwr

Mae'r Cynllun yn partneru cyn-fyfyrwyr busnes llwyddiannus Prifysgol Abertawe, ag egin myfyrwyr entrepreneuraidd am 6 mis o fentora. Mae'r wybodaeth a drosglwyddir gan y cyn-fyfyrwyr yn adnodd amhrisiadwy i'r myfyrwyr, wrth iddynt gael eu paru entrepreneuriaid o'r diwydiant o'u dewis i gefnogi taith eu busnesau newydd. Mae'r Tim Mentergarwch Myfyrwyr yn gweithio gydag Adran y Cyn-fyfyrwyr i dod o hyd i'r mentoriaid ac eleni, mae 15 mentor yn rhannu eu hamser a'u cyngor â'r myfyrwyr sy'n cael eu mentora.

“Roedd y mentor a neilltuwyd i mi yn berffaith i mi a fy musnes, yn darparu cyngor sydd wedi bod yn amhrisiadwy i ni fel busnes, sydd wedi arbed amser ac arian i ni.

Gall dechrau busnes fod yn frawychus iawn ac yn brofiad llethol, felly mae cael rhywun yno a all uniaethu a chynnig eu doethineb yn werth mwy nag arian yn y camau cynnar.

Byddwn yn argymhell y dylai unrhyw un sydd am ddechrau busnes geisio cael mentor am gyngor ac arweiniad beirniadol.”

Hannah Worth, Gradd MSc mewn Arweinyddiaeth a Rheoli Peirianeg, Sylfaenydd Bowla.

Bwtcamp Rhyng-Brifysgol Unpreneur

Mae UNpreneur yn sefydliad cymorth busnes sy'n gweithio gyda cholegau a phrifysgolion i ddatblygu ymhellach sgiliau eu myfyrwyr entrepreneuraidd. Drwy gydol mis Mehefin 2023, cymerodd 21 myfyrwr o Brifysgol Abertawe ran yn eu bwtcamp rhyng-brifysgol ar-lein a oedd yn cynnwys myfyrwyr o lawer o brifysgolion eraill yn y DU, ac yn helpu i ddatblygu eu sgiliau a galluoedd entrepreneuraidd.

“Roedd bwtcamp UNpreneur yn hynod ddefnyddiol wrth ddatblygu fy ngwybodaeth am ddechrau busnes. Dysgais i fwy amdanaf fy hun o'r bwtcamp nag ydw i erioed wedi'i wneud ers i mi ddechrau cynllunio ar gyfer busnes. Yn ogystal â hyn, roedd y gallu i ofyn cwestiynau yn uniongyrchol yn ddefnyddiol iawn i mi. Dysgais i fwy am farchnata drwy fideo a llwyddo i ddod o hyd i asiantaeth rydw i bellach yn ei defnyddio ar gyfer brandio oherwydd eu atebion, sy'n wych. At ei gilydd, mae'r profiad yn hollol amhrisiadwy!”

Sian Gibson, Myfyrwr y Gyfraith, Sasipia Industries Founder.

Entrepreneur Preswyl

Darparodd sylfaenydd mentrau cymdeithasol niferus a chyn-fyfyrwr Abertawe, Dr Ben Reynolds o'r 'Urban Foundry', adnodd amhrisiadwy wrth gyflwyno gweithdai ac ymgynghoriadau cyngor 1-i-1 i 10 myfyrwr entrepreneuraidd yn y brifysgol fel ein Entrepreneur Preswyl.

“Mae'r arweiniad a gefais gan yr Entrepreneur Preswyl, i helpu i ddatblygu fy anghenion cychwyn busnes ar ddechrau fy nhait. Cefais fy nghyflwyno i adnoddau a helpodd i fynd â fy syniad i'r lefel nesaf.”

Todd Whichello, Myfyrwr Economeg a Chyllid, Sylfaenydd 'Todd's Attire.'

Cynllun Cychwyn Busnes i Raddedigion (GSS) gyda 'Business Butler'

Mae GSS yn rhaglen 12 mis a ddyluniwyd ar y cyd â 'Business Butler', i gefnogi graddedigion Prifysgol Abertawe sy'n dechrau neu'n ehangu eu busnes eu hunain, gyrfu llawrydd neu fenter gymdeithasol. Roedd y cynllun ar agor i egin entrepreneuriaid ac entrepreneuriaid cam cynnar sydd wedi graddio o Abertawe Brifysgol yn y 3 blynedd diwethaf ac yn cynnwys sesiynau dosbarth meistr, mentora a chymorth busnes a chyllid gwerth hyd at £5,000. Ymunodd 10 o raddedigion Prifysgol Abertawe â Cynllun, gan eu helpu i gyd i lansio neu ehangu eu busnesau eu hunain.

Bwtcamp Busnes Hybu Gyrfa

Mae 'Hybu Gyrfa' yn darparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau ac anghenion ychwanegol, gan gynnwys cyfleoedd am brofiad gwaith, mentora, bwsariaethau cyflogadwyedd a bwsariaethau mentergarwch. Roedd y Tim Mentergarwch yn rhedeg bwtcamp buses am 3 diwrnod ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn hunangyflogaeth. Roedd y bwtcamp yn ymdrin â phynciau fel creu syniadau, ymchwil i'r farchnad, cyllid, cyflwyno syniadau a marchnata. Ar y diwedd, roedd cyfle i fyfyrwyr gyflwyno eu busnes neu eu syniad am gyfle i gael cyllid i helpu i lansio neu dyfu eu busnes. Ymunodd 26 o fyfyrwyr â'r bwtcamp a hyd yma mae 4 myfyrwr wedi cael £3,000 yr un tuag at eu busnesau.

“Cafodd ein myfyrwr 'Hybu Gyrfa' eu grymuso yn sgil rhyngweithio â'r Tim Mentergarwch oherwydd eu cefnogaeth a'u cyngor, a chael eu hatgyfeirio ganddo. Dwi wedi gweld yn uniongyrchol yr effaith y mae'r Tim Mentergarwch yn ei chael ar feddylfryd myfyrwyr a staff yn Brifysgol Abertawe.”

Janet Collins, Hybu Gyrfa

Stondinau Masnachu Myfyrwyr

Drwy gydol y flwyddyn, mae myfyrwyr o bob rhan o'r brifysgol bellach yn cael cyfle i fasnachu eu nwyddau ar y campws i staff, myfyrwyr a'r cyhoedd drwy ddefnyddio Stondinau Masnach. Eleni, defnyddiwyd y stondinau gan 12 myfyrwr sy'n masnachu.



BUDDSODDIAD A GODWYD AR GYFER Y GYMUNED O FUSNESAU BACH

CYFANSWM O **£65,312.50** O RAN BUDDSODDIAD A GODWYD I GEFNOGI PARTNERIAETHAU CYMUNEDOL

£30,000

O GRONFA ARLOESI YMCHWIL CYMRU



£15,000

ODDI WRTH PRIFYSGOLION SANTANDER Y DU I GEFNOGI LANSIO A THYFU BUSNES



£17,000

O'R TÎM 'HYBU GYRFA' I GEFNOGI MYFYRWYR SYDD WEDI'U TANGYNRYCHIOLI I DDECHRAU BUSNES



£3,000

ODDI WRTH BEIRIANNWYR MEWN BUSNES I GEFNOGI 'INVENT FOR THE PLANET'



£312.50

ODDI WRTH GYN-FYFYRWYR I GEFNOGI MENTRAU ENTREPREURIAETH



CYMHORTHDAL ENTREPREURIAETH IEUENCTID



CRONFA ARLOESI YMCHWIL CYMRU

Mae'r Tim Mentergarwch yn cael cymorth gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Warant Pobl Ifanc i annog a chefnogi pobl ifanc i fod yn fwy entrepreneuriaid a helpu'r rhai sydd â ddi-ddordeb mewn dechrau busnes i symud ymlaen â'u syniadau.

Mae Cyngr Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi darparu cyllid, drwy Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru, i gynnal gweithgareddau arloesi presennol ym Mhrifysgol Abertawe a chynyddu'r gallu i gefnogi sefydliadau ar draws y rhanbarth.

GWEITHIO GYDA PHARTNERIAID A RHANDDEILIAID

32	CYN-FYFYRIWR YN YMWNEUD Â GWEITHGAREDD
18	RHANDDEILIAD ALLANOL YN YMGYSYLLTU
8	DIGWYDDIAD I BARTNERIAID RHANBARTHOL A GEFNOGWYD

Prifysgolion Santander

Fel un o **85** o Brifysgolion Santander, mae Prifysgol Abertawe cael cyllid i gefnogi addysg, cyflogadwyedd a mentergarwch. Mae **£15,000** o'r cyllid hwn ar gyfer cefnogi myfyrwyr i ddechrau busnesau, a ddyfernir drwy gystadleuaeth Y Cynnig Mawr.

Hacathon Mentrau Cymdeithasol Cwmpas

Ymunodd **10** o fyfyrwyr Prifysgol Abertawe â digwyddiad Hacathon Mentrau Cymdeithasol Cwmpas, yn cyflwyno eu cysynidau eu hunain ynghylch mentrau cymdeithasol. Cynhaliwyd hyn mewn cydweithrediad â 6 prifysgol arall ledled Cymru.

Arweinyddiaeth ION

Aeth **27** o entrepreneuriaid i'r digwyddiad rhwydweithio 'Cwrdd a Chymdeithasu' lle cynhaliodd Arweinyddiaeth ION sesiwn datblygu sgiliau er mwyn gwella eu sgiliau arweinyddiaeth. Cynhaliwyd hyn mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Syniadau Mawr Cymru

Defnyddiwyd **14** model rôl i gefnogi ac annog entrepreneuriaeth ymhlith ein myfyrwyr a'n graddedigion. Cyfeiriwyd **14** o fyfyrwyr at Syniadau Mawr Cymru am gymorth parhaus gyda'u nodau busnes.

Academi Llawrydd Underpinned

Defnyddiodd **9** myfyriwr blaffform Llawrydd 'Underpinned' a gwnaethant gofrestru am eu dosbarthiadau meistr Llawrydd 6 wythnos er mwyn dechrau eu gyrfu llawrydd.

Entrepreneur Benywaidd y Dyfodol

Cafodd **3** darpar entrepreneur benywaidd gyngor ac arweiniad arbenigol gan fenywod sy'n arbenigwyr mewn busnes fel rhan o'r fenter Entrepreneur Benywaidd y Dyfodol gan "Two Chicks".



YMRWYMEDIG I STAFF

Mae'r Brifysgol yn parhau i feithrin ei chymunedau mewnol, gan gydweithio i greu synergeddau a chysylltiadau ar draws tair cyfadran y brifysgol a'i hadrannau proffesiynol. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cefnogi ein gilydd i rannu arferion gorau, adnoddau ac addysgu ar draws cyfadranau, i dorri i lawr ffiniau a seilos traddodiadol er mwyn grymuso eraill i gyflawni entrepreneuriaeth.

106 O STAFF YN HYRWYDDO ENTREPREURIAETH HYD YN HYN

61 O STAFF O GYFADRANAU

32 O STAFF Y GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

13 O STAFF UNDEB Y MYFYRWYR YMRWYMEDIG I STAFF



ASTUDIAETHAU ACHOS YNGHYLCH BUSNESAU NEWYDD

Fideos o Astudiaethau Achos Sylfaenwyr Busnesau Newydd Abertawe

Er mwyn annog mwy o fyfyrwyr i ystyried entrepreneuriaeth wrth fod yn y brifysgol ac ar ôl graddio, mae'r Tim Mentergarwch Myfyrwyr wedi creu cyfres newydd o fideos o astudiaethau achos sy'n arddangos myfyrwyr a graddedigion sydd wedi dechrau busnesau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ceir rhagor o wybodaeth am sut y gwnaeth y myfyrwyr arloesol hyn, gyda chymorth y Tim Mentergarwch Myfyrwyr, wireddu eu breuddwyd a dod yn fos arnynt eu hunain.

AIRVIEW ENGINEERING
Busnes Dal Carbon Newydd



ASPERA
Busnes Planhigion a Lles Newydd




BOWLA
Busnes Bwyd Newydd



EASILY ECO
Busnes Cynaliadwyedd Newydd




GAIN
Busnes Apiau Newydd



IMERSIFI
Busnes VR Newydd




KIWIS BOWLS
Busnes Bwyd Newydd



NOURISH WITH NISH
Busnes Maeth Newydd




PROCOLL
Busnes Datblygu Collagen Newydd




RAVS
Busnes Dillad Cynaliadwy Newydd



SAADIA SPEAKS
Busnes Siaradwr Cymhellol Newydd



TENERGISE
Busnes Ynni Cynaliadwy Newydd



DATHLU LLWYDDIANT




4 ENILLYDD GWOBRAU BUSNESAU NEWYDD CYMRU 2023 - 14 YN Y ROWND DERFYNOL MEWN 11 CATEGORI



**YOUNG MARKET TRADERS
ENILLYDD RHANBARTHOL DE CYMRU 2023**
Hannah Worth (Bowla)



**ENILLWYR Y BYD
'INVENT FOR THE PLANET'
H2Grow**



BUSNESAU NEWYDD 2022-2023

Amelia Thomas Piano

Amelia Thomas
Tiwtorialau Piano

Comparemysupplies.com

Talil Chowdhury
Safle Cymharu Cyflenwadau Adeiladu

Fyn Caudery

Fyn Caudery
Ffotonyddiadurwr Llawrydd

Khalid Evans Tutoring

Khalid Evans
Tiwtor Meddalwedd

Old Sovereign Publishing

George Carter
Cyhoeddwy Llenyddiaeth Glasur

Sunmar

Artemis Santorinaiou
Gwerthu Tywelau Micoffibr

Angela Jules

Angela Jules
Actor Llawrydd

Cowan Trading

Ben Cowan
Manwerthwr

Gain Invst

Thomas Robertson
Busnes Buddsoddi mewn Eiddo

Laura Roklicer Freelancing

Laura Roklicer
Awdur Creadigol a Chyfarwyddwr Llawrydd

Oliwia Janik's Crochet Shop

Oliwia Janik
Eitemau Crosio wedi'u Gwneud â Llaw

Sweetpot Confectionary Ltd

Nenna Saini
Gwasanaeth E-Fasnach Rhoddi Losin

Artista

Alexis Ciunek
Anrhegion wedi'u gwneud â Llaw

Creative Tales Publishing

Elizabeth Suggs
Cyhoeddwr Llyfrau

Gigi Netyx

Max Cameron
Artist Drag

LauraHD Artistry

Laura Hughes-Dowdle
Gwerthu Celf Ar-lein

Pandad Pets

Jessie Hopkin
Danteithion ac Ategolion i Anifeiliaid Anwes

Tackle Tart

Ellis McGauley
Gwerthu Offer Pysgota

Atlantic Software

Morgan Firkins
Atebion Meddalwedd

Deranged Serenity

Kevin Nyandwi
Brand Dillad

Governing Function Osteopathy

Luke Smith
Clinig Osteopathi

Los Cardiff Customs

Qasim Hussain
Addasiadau Cerbydau

Pendragon Boxing

Isaac Hughes
Gwerthu Menig Bocsio

Tailormade Mornings

Harry Skidmore
Hyfforddwr Lles

Autism Training Services

Julie King
Hyfforddiant ac Ymgynghori ar Awtistiaeth

Dogukan Pizza Ltd

Serhat Yildirim
Bwyty Pizza

Head Injury Records

Alexander Murton
Dosbarthu Cerddoriaeth

Lucid Story

Laura Roklicer
Tiwtor Ysgrifennu Creadigol

Plyscore

Mikeleno Fureraaj
Gwasanaeth Recriwtio ar gyfer busnesau bach neu ganolig

The Abishai Box

Teffanie Meramba
Blychau Rhoddion Cristnogol i Ddnyon

Barberian Official

Rian Mason-Jenkins
Barbwr Symudol

Dragon Bouncy Castles

Robert Wright
Manwerthwr Cestyll Pwmpiadwy

Hen Straeon

Lily Bevan
Cynhyrchu Fideos Llawrydd

Lukas Kundelis

Lukas Kundelis
Peiriannydd Meddalwedd Llawrydd

Ratemycribz.com

Megan Flanagan
Safle Adolygu Llety Myfyrywr

The Autopsy Club

Rosie Capewell
Busnes Dylunio Tatws

Big Qaz Developments

Qasim Hussain
Dylunydd Brand

Ducky Vintage

Rafael Cuartielles-Ayete
Manwerthwr Dillad Vintage

Hoddinott Graphic Design

Henry Hoddinott
Dylunydd Graffeg

Luminate Systems

Maxwell Graham
SaaS ar gyfer Busnes E-Fasnach

Rebound Community

Simon Hudler
Hyfforddwr Ffitrwydd a Hyfforddiant Personol

The Platform Publishing

Sergio Rivera
Gwasanaeth Cyhoeddi Digidol

Broken Circle UK

Mark Eaton
Cefnogi Pobl Ddigartref i Gael Gwaith

E Tastebuds

Ben Chen
Manwerthwr Cynnyrch Asiaidd

Ikeli

Kevin Ndjoli
Brand Dillad

Lyndsey McConnel

Lyndsey McConnel
Marciw a Hyfforddwr Llawrydd

Sasipia Industries

Sian Gibson
Busnes Celf, Iaith a Chrefft

Visualratio.net

William Van Zwanenberg
Cwmni Technoleg Gyfreithiol

Bubs Candles

Emilia Leo
Canhwyllau wedi'u Gwneud â Llaw

Eileen's Gladrags

Michelle Howlin
Manwerthwr Dillad Vintage

Impacting the Young

Yasmin Li
Asiantaeth Siaradwr

Megan Braxton

Megan Braxton
Awdur

Shearers' Retreat

Louisa Clearwater
Busnes Gwersylla mewn Cytiau Bugeiliaid

Women's Community Skating

Jess Mead
Clwb Rhôl-sglefrio

Casa Platform

Rowan Aldean
Platfform Marchnad Eiddo

Emma Grigorian Translator

Emma Grigorian
Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg

Imminent Meta Clothing

Josh Allen
Brand Dillad

Mini Social

Megan Flanagan
Marchnatwr Cyfryngau Cymdeithasol Llawrydd

Shumba Technologies Ltd

Tanya Tagwireyi
Ffermio Digidol ar gyfer Cymunedau Affricanaidd

Youngprener Ceo

Remy Bada
Gwasanaeth Hyfforddiant i Fusnesau

Clayman Project

Jack McLeay
Gwasanaethau Brandio a Dylunio

Felix Adamson-Walter

Felix Adamson-Walter
Osteopath Llawrydd

Inky Squid Calligraphy

Caitlin Gillings
Gwerthu Celf Caligraffi

Motion for Evolution

Kieran Woolf
Osteopath Llawrydd

Skin by Eok

Evie O'Kelly
Therapydd Croen

Chloe Willis Graphics

Chloe Willis
Adwerthwr Ategolion i Gemau Bwrdd

Freyacellos

Freya Hope Moxham
Tiwtor Soddrwth

Josef Gray Music

Josef Gray
Arwyddwr Cerddoriaeth Glasur Llawrydd

Munashe Copywriting Services

Munashe Chiptao
Gwasanaethau Marchnata Digidol i fusnesau bach neu ganolig

Slink

Bradley Ruddy
Asiantaeth Marchnata Dylanwadwyr

Chocolate Delights

Afia Begum
Gwerthu Melysion Ar-lein

Fuelsion

João Seródio
Cwmni Nanotechnoleg

Kabarter

Micheal Ijaiye-Makinde
Skill & Community Development

My Little Crochet Corner

Carolina Rososchansky
Anrhegion Crosio

Small Art Cave

Franciska Toth-Pal
Eitemau Crefft wedi'u Gwneud â Llaw



Prifysgol
Abertawe
Swansea
University



www.swansea.ac.uk/enterprise

